

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion o Gyngor Tref Y Bala Ionawr 2il 2014

Presennol: Y Maer, Dorothei Evans, Y Dirprwy Faer, Ivora Jones, Dilys Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Islwyn Pritchard-Jones, Shan Ranson, Edith Roberts, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Sharon Evans, Eifion Roberts

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Maer a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda.
2. Estynnwyd croeso arbennig i Aled Sion, Trefnydd Eisteddfod yr Urdd a roddodd gyflwyniad ar drefniadau'r Eisteddfod Genedlaethol. Dilyniir yr un drefn a brofodd yn llwyddiannus yn eisteddfodau'r gorffennol yn Y Bala, ond ni ragwelir y bydd angen cau trafndiaeth allan o'r Stryd Fawr gyda'r nos. Defnyddir yr un patrwm ar gyfer y Maes, y meysydd parcio a'r maes carafanau, a rhagwelir y bydd y llwybr presennol o Lanfor yn ddigonol ar gyfer cerddwyr. Bydd goleuadau traffig a stiwardiaid i sicrhau diogelwch wrth groesi'r ffordd o'r meysydd parcio at y Maes. Mae swyddogion yr Heddlu, Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn fodlon gyda'r trefniadau. Er y bydd dydd Llun 26 o Fai yn Wyl y Banc, tueddiad pobl sy'n mynychu Eisteddfod yr Urdd yw cyrraedd yn gynnar iawn yn y bore a gadael ar ddiwedd y pnaun. Gobeithir felly allu ymdopi gyda thrafnidiaeth eisteddfodwyr a thwristiaid. Bydd y Rhagbrofion i gyd yn digwydd ar y Maes. Bydd yn cymryd tua 7 wythnos i adeiladu'r maes a phythefnos i glirio'r safle ar ôl yr Wyl, a bydd cyfyngiad cyflymder o 30 milltir yr awr dros y cyfnod hwn.

Disgwylir tua 90,000 o ymwelwyr a bydd tua £5 miliwn yn cael ei gyfrannu i'r economi leol. Diolchodd Aled Sion am y cyfraniadau ariannol lleol ac anogodd fusnesau a phawb arall i osod addurniadau croeso. Mae gan yr Urdd rywfaint o stoc baneri a bydd yr Urdd yn trefnu hefyd gydag ysgolion lleol. Dywedodd fod S4C yn trefnu digwyddiad wedi ei seilio ar gwch banana i hyrwyddo'r Eisteddfod, ond bydd mwy o fanylion yn dilyn.

Diolchwyd yn gynnes i Aled Sion am ei gyflwyniad.
3. Derbyniwyd cynigion am ddyddiadau ymweliad gan yr Heddlu i'r Cyngor Tref; maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Chynghorwyr Lleol Cyngor Gwynedd. *Gweithredu: Clerc*
4. Manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch yn bersonol i Shan Ranson am ei gwaith a'i chyfraniad gwerthfawr i Gyngor Tref Y Bala ar hyd y blynyddoedd, a dymunwyd yn dda iawn iddi ar ei hymddiswyddiad o'r Cyngor. Mynegwyd siom o'i cholli ond balchder hefyd yn yr amgylchiadau personol. Anogwyd iddi ystyried dychwelyd i'r Cyngor yn y dyfodol gan fod ei chyfraniad wedi bod yn un gwerthfawr dros ben.
5. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

6. Nid oedd datganiadau o fuddiant ond fe gwblhaodd y Cynghorwyr Gofrestr Buddiant Personol ar gyfer tymor y Cyngor hwn.
7. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 12fed, 2013, ond nodwyd mai dim ond yn y Cinio yr oedd Eluned Jones yn bresennol.
8. **Materion yn codi o gofnodion Rhagfyr:** mynegwyd balchder yn llwyddiant y Noson Siopa Hwyr; roedd y Maer eisoes wedi anfon Cyfarchion Nadolig a diolch y Cyngor yn Y Cyfnod. Cytunwyd i'r Clerc anfon at Grŵp Busnesau'r Dref i fynegi parodrwydd y Cyngor i gefnogi trefniadau'r Nadolig y flwyddyn nesaf eto. *Gweithredu: Clerc*
9. Trafodwyd:
 - i. Y camau nesaf gyda'r sedd wag ar y Cyngor: cytunwyd gyda threfniadau Cyngor Gwynedd. Cytunwyd i roi rhybudd y bydd hwn yn FATER MEWNOL ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
 - ii. Derbyniwyd ymateb gan Anthony Aspbury Associates parthed cais y Cyngor Tref am groesfan i'r archfarchnad yn mynegi ystyriaeth i groesfan gyda goleuadau pe byddai asesiad manwl yn dangos yr angen ar ôl cyfnod o amser, ac asiantaethau eraill yn cyfrannu'n sylweddol at y gost. Cytunwyd
 1. Gofyn i Gyngor Gwynedd am gopi o bob cofnod o'u heiddo hwy am yr angen am groesfan, ynghyd ag adroddiad diweddar Dylan Wynn Jones. *Gweithredu: Clerc a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan*
 2. Ysgrifennu'n ffurfiol at Gyngor Gwynedd i ofyn am groesfan a chynnwys copi o lythyr y Co-op. *Gweithredu: Clerc*
 3. Yn dilyn derbyn yr wybodaeth o Gyngor Gwynedd, ystyried ysgrifennu yn ôl at Anthony Aspbury, sy'n gweithredu ar ran y Co-op, i fynegi siom eu bod wedi torri eu gair. Mewn cyfarfod yn gynharach eleni gyda'r Cyngor Tref dywedwyd yn glir wrth ateb cwestiwn penodol gan Gynghorydd fod arian ar gael i greu croesfan gyda goleuadau. Barn Cynghorwyr yw os ydy'r Co-op yn dymuno gweld cwsmeriaid yn y siop newydd, maent felly yn disgwyl y bydd y cwsmeriaid yn croesi'r ffordd ac y bydd mwy o drafnidiaeth ar hyd y ffordd. Os nad oes croesfan ddigonol, mae'r Co-op yn gosod eu cwsmeriaid o dan risg. *Gweithredu: Clerc*
 - iii. Cytunwyd i gysylltu gydag Adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd i ofyn am lecyn parcio i'r anabl wrth Westy'r Bull/ y Co-op presennol. *Gweithredu: Clerc a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan*
 - iv. Derbyniwyd gwybodaeth y bu cydweithio rhwng Cynghorau Cymuned a Thref ym Mhenllyn wrth wneud ceisiadau i Gist Gwynedd am grant i greu gwefan.
 - v. Cytunwyd i gyfuno is bwyllgorau Delwedd y Dref ac Addurniadau Nadolig ac i gyfarfod ar ddyddiad sydd yn gyfleus i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan . Derbyniwyd

peth gwybodaeth oddi wrth drefi cyfagos sydd yn cynnal yr addurniadau Nadolig.
Gweithredu: Cynghorydd Dilwyn Morgan a'r is bwyllgor

10. Materion y Cynghorydd Sir

11. Materion lleol y Cyngorwyr Tref:

Tynnodd Dilwyn Jones sylw at gyflwr gwaith pren ar y Domen. Cytunwyd i geisio cael hyd i staen pren ac i ofyn i'r sawl sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw ar y domen

- i roi sylw i'r gwaith pren, gan gynnwys y ffrâm wrth y giât
- i sicrhau fod y giât yn agor yn hawdd
- i blannu celyn neu debyg yn y bwlch yn y gwrych

Mae angen atgoffa Adran Eiddo Gwynedd fod angen sylw ar wal gynnal y Domen.

Gweithredu: Islwyn Pritchard-Jones; Clerc

12. Materion Cynllunio Dim

13. Materion Cyllid

- Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf:
 - Cyfrif Cyfredol: £13,483.53
 - Cronfa'r Maer: £613.58
 - Cyfrif cadw: £15,016.01
- Cytunwyd i holi am fwy o wybodaeth parthed un anfoneb. *Gweithredu: Sharon Evans a'r Clerc*
- Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am fis Rhagfyr.
- Cytunwyd gydag argymhelliad yr is-bwyllgor Cyllid am Gyllideb 2014-15 a'r argymhelliad penodol i gadw'r Praesept ar yr un lefel â llynedd, sef £16,500 .
Gweithredu: Clerc
- Cafwyd trafodaeth ar hawliau'r Cyngor wrth wneud cyfraniadau ariannol a'r arfer dda o dderbyn Cyfrifon mudiad a chynlluniau gwario wrth iddynt wneud cais i'r Cyngor am arian. Dylid hefyd gyflwyno arfarniad o wariant unrhyw arian a rannwyd y flwyddyn flaenorol. Cytunwyd i alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 20/2/13 am 7.00pm yn Ysgol y Berwyn i drafod cyfraniadau ariannol. *Gweithredu: Clerc*

14. Gohebiaeth

Llywodraeth Cymru: Dim

Cyngor Gwynedd

- i. Cytunwyd i'r Clerc ateb Holiadur ar Ddatgan Buddiant *Gweithredu: Clerc*
- ii. Derbyniwyd Canllaw Atodol "Ynni Gwynt ar y Tir" (o dan Cyngor Gwynedd)

Un Llais Cymru

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y Pwyllgor Ardal a chytunodd Islwyn Pritchard-Jones i fynychu ar ran y Cyngor Tref.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi a mynegwyd y dymuniad i gynghorau lleol gyd-weithio ar gynnal cwrs hyfforddi; awgrymwyd Cyllid fel pwnc. *Gweithredu: Clerc*
- iii. Derbyniwyd gwahoddiad i enwebu'r Maer ar gyfer ymweld â Phlas Buckingham.
- iv. Derbyniwyd Holiadur am weithgareddau cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf a chytunwyd i'w drosglwyddo i sylw'r Lleng Prydeinig. *Gweithredu: Islwyn Pritchard-Jones*

Heddlu Dim

Eraill

Adroddodd y Clerc iddi ymateb ar ran y Cyngor i gais Ysgol y Berwyn am gefnogaeth i gael grant at fws mini.

15. Asedau'r Cyngor – derbynir adroddiad ar eu cyflwr y mis nesaf. *Gweithredu: Sharon Evans.*

16. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y bu llawer o waith clirio yn yr Henblas. Cytunwyd i chwilio am le i gadw'r byrddau a fu yn Siambr y Cyngor. *Gweithredu: John C Williams*

17. Polisiâu'r Cyngor: cytunwyd i'r is-bwyllgor polisiâu adolygu'r rhain.

18. Materion brys - dim

19. Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 6/2/14 am 7.00 yng Nghanolfan Bro Tegid.

Cyfarfod arbennig ar 20/2/14 yn Ysgol y Berwyn

Cyfarfod Delwedd y dref / Addurniadau Nadolig – i'w drefnu

Cyfarfod Adolygu Polisiâu – i'w drefnu